

RENDEL, STUART (1834 - 1913), barwn, diwydiannwr, ac aelod seneddol

Enw: Stuart Rendel
Dyddiad geni: 1834
Dyddiad marw: 1913
Priod: Ellen Sophy Rendel (née Hubbard)
Rhiant: Catherine Jane Rendel (née Harris)
Rhiant: James Meadows Rendel
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: barwn, diwydiannwr, ac aelod seneddol
Maes gweithgaredd: Diwydiant a Busnes; Dyingarwch; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol
Awdur: Thomas Iorwerth Ellis

Ganwyd yn Plymouth, 2 Gorffennaf 1834, trydydd mab James Meadows Rendel a Catherine ei wraig. Cafodd ei addysg yn Eton a Choleg Oriol, Rhydychen, gan raddio yn 1856; galwyd ef yn fargyfreithiwr, ac yna ymddiddorodd ym myd peiriannau. Yn ddiweddarach daeth yn bennaeth yn Llundain i gwmni gynnew Armstrong. Etholwyd ef i'r Senedd yn 1880 i gynrychioli sir Drefaldwyn fel aelod Rhyddfrydol; torrodd felly ar draws y traddodiad Ceidwadol a anfonasai aelod o **deulu Wynnstay** ers 80 mlynedd i gynrychioli'r sir. Daeth Rendel yn ebrwydd yn arweinydd cydnabyddedig ar yr aelodau seneddol Cymreig, a hyd ei ddyrchafiad i Dŷ'r Arglwyddi yn 1894 gwnaeth lawer er hyrwyddo buddiannau Cymreig. Bu'n flaenllaw gyda'r Ddeddf Addysg Ganolradd i Gymru (1889) a'r mesurau a gynigiwyd er datgysylltu Eglwys Loegr yng Nghymru. Yr oedd yn gyfaill mynwesol i W. E. Gladstone, a bu mewn cysylltiad agos ag ef pan oedd yn brif weinidog am y tro olaf (1892-4), yr adeg y bu cryn weithgarwch yn y Senedd ynghylch pethau Cymreig. Bu'n gymwynaswr hael i Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, gan weithredu fel llywydd o 1895 hyd ei farw: gelwir y gadair Saesneg yno ar ei enw. Yn 1897 prynodd ddarn o dir ar fryn Grogythan, ger Aberystwyth, a'i gyflwyno er adeiladu Llyfrgell Genedlaethol Cymru arno.

Priododd Ellen, merch W. Egerton Hubbard, a bu iddynt bedair merch. Bu farw 4 Mehefin 1913 yn Llundain, a'i gladdu yn East Clendon, Surrey.

Awdur

Thomas Iorwerth Ellis, (1899 - 1970)

Ffynonellau

F. E. Hamer, *The Personal Papers of Lord Rendel, containing his unpublished conversations with Mr. Gladstone (1888 to 1898) and other famous statesmen selections from letters and papers reflecting the thought and manners of the period; and intimate pictures of Parliament, politics, and society*

Archifau LIGC: NLW MS 1336D: [The political work of Lord Rendel](#)

Who was who?

Darllen Pellach

Archifau LIGC: [Montgomery County Election, 1885: Mr. Stuart Rendel, M.P.... will address Public Meetings...](#)

Archifau LIGC: [The Reason why you should Vote for Rendel, The Liberal Candidate for Montgomeryshire](#)

Erthygl Wicipedia: [Stuart Rendel](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [58867699](#)

Wikidata: [Q7627002](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

Preifatrwydd a Chwciis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Yn eiddo gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government